Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# ***Bil Amaethyddiaeth (Cymru)***

## Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth ac ati

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn crynhoi pwerau Gweinidogion Cymru ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth a amlinellir ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru), fel y'i cyflwynwyd gerbron Senedd Cymru ar 26 Medi 2022.

Mae'r Datganiad wedi ei baratoi i gynorthwyo pwyllgorau i graffu ar y Bil. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef. Nodir manylion gweithdrefn y Senedd sy'n gysylltiedig â phob un o'r pwerau hyn ym mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol ac ni fyddwn yn eu hailadrodd yn y ddogfen hon.

Bwriedir i'r ddogfen hon hefyd roi cyfle cychwynnol i randdeiliaid roi adborth ar y defnydd arfaethedig o'r pwerau hyn er mwyn sicrhau bod y polisi'n gadarn ac effeithiol. Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y defnydd o bwerau yn y Bil fel y nodir isod ac maent yn fodlon eu bod yn angenrheidiol a bod cyfiawnad iddynt.

Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y darpariaethau'n berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur.

### Trosolwg o'r Bil

Mae'r Bil wedi'i rannu'n 6 Rhan a 3 Atodlen.

Rhan 1 – Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Rhan 2 – Cymorth ar gyfer amaethyddiaeth ac ati

Rhan 3 – Materion yn ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol

Rhan 4 – Coedwigaeth

Rhan 5 – Bywyd Gwyllt

Rhan 6 – Cyffredinol

Atodlen 1 – Cynhyrchion amaethyddol sy'n berthnasol i ddarpariaethau safonau marchnata

Atodlen 2 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol etc sy'n ymwneud â Rhannau 1 i 3

Atodlen 3 – Diwygiadau canlyniadol etc i'r Rheoliad ar Gyd-drefniadaeth y Marchnadoedd

## *Rhan 1 – Rheoli Tir yn Gynaliadwy*

| Cyf | Adran y Bil | Disgrifiad o’r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|---|---|
| | **Adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy** | | |
| | Adran 6 | Pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 6(9) sy’n pennu cyfnodau adrodd yr adroddiadau SLM.<br><br>Mae gofyn i Weinidogion Cymru baratoi adroddiad ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan nodi eu hasesiad o’r cynnydd at gyflawni amcanion rheoli tir yn gynaliadwy (adran 6(1)) trwy arfer y swyddogaethau y mae’r ddyletswydd yn adran 2 yn gymwys iddynt. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau ar y cynnydd mewn perthynas â dangosyddion a thargedau dros y cyfnod adrodd (adran 6(2) i (6)). Rhaid cyhoeddi’r adroddiad a’i osod gerbron y Senedd ddim mwy na 12 mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd (adran 6(8)). Y cyfnod adrodd yw (a) yn achos yr adroddiad cyntaf, y cyfnod sy’n dechrau ar y diwrnod y daw adran 2 (dyletswydd Gweinidogion Cymru mewn perthynas â’r amcanion) i rym gan orffen ar 31 Rhagfyr 2025; (b) yn achos yr adroddiadau wedi hynny, cyfnodau dilynol o 5 mlynedd (adran 6(9)). | Mae darpariaethau adrodd rheoli tir yn gynaliadwy (SLM) yn fecanwaith pwysig i asesu’r modd y cyflawnir y polisi SLM ac ar gyfer atebolrwydd a chraffu.<br><br>Mae’r pŵer i newid y cyfnod adrodd yn rhoi hyblygrwydd rhag ofn y bydd angen newid y cyfnod adrodd i ystyried blaenoriaethau sy’n newid a/neu newid yn hyd/amserau dechrau’r contract mewn cynllun cymorth o dan y pŵer i ddarparu cymorth, fel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) arfaethedig. Bydd tystiolaeth oddi wrth y pŵer i ddarparu cymorth yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol i'r adroddiad SLM. Mae’r pŵer adran 6 yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid cyfnod adrodd yr adroddiad SLM, os gwelir bod angen hynny, er mwyn iddo alinio’n well â gweithdrefnau adrodd a gweithredu eraill, fel yr adroddiadau pŵer i ddarparu. |

## *Rhan 2 – Cymorth ar gyfer amaethyddiaeth etc*

| Cyf | Adran y Bil | Disgrifiad o'r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer |
|---|---|---|---|
| **Pen1** | **Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth** | | |
| | Adran 8 – 4 (a) i (c) | Pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu at, dileu neu addasu'r dibenion a nodir yn adran 8(2) y pŵer i ddarparu cymorth.<br><br>Yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ychwanegu at, dileu neu addasu dibenion y pŵer i ddarparu cymorth a nodir yn Bil.<br><br>Nid yw'r rhestr o'r dibenion yn gynhwysfawr, ond mae'n nodi'r dibenion y gellir darparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth neu mewn cysylltiad â hi a gweithgareddau ategol yng Nghymru.<br><br>Efallai y bydd angen diwygio'r dibenion yn y dyfodol wrth i arferion rheoli tir a blaenoriaethau newid o ganlyniad i SLM. | Gallai'r rheoliadau hyn ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn cysylltiad â dibenion y pŵer i ddarparu cymorth.<br><br>Mae'r dibenion yn disgrifio blaenoriaethau'r taliadau o dan y pŵer i ddarparu cymorth a bydd unrhyw newidiadau (ychwanegu, dileu neu addasu cofnodion) yn cael effaith ar ddyluniad unrhyw gynllun o dan y pŵer i ddarparu cymorth. O'r herwydd mae'n angenrheidiol bod unrhyw newidiadau yn cael eu hystyried a bod cyfle i'w herio.<br><br>Y cynllun cyntaf i gael ei gynnig o dan y pŵer i ddarparu cymorth yw'r SFS. I weld dogfen bolisi fras 'SFS: Cynigion Bras ar gyfer 2025' lle disgrifir rhai o'r cynigion ynghyd â'r gweithredoedd y gellid eu cynnal ar lefel cynllun cymorth i helpu i gyflawni'r dibenion, ewch i wefan Llywodraeth Cymru.<br>Cynllun Ffermio Cynaliadwy \| LLYW.CYMRU |
| | Adran 10 (1) | Gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth am gymorth sydd yn cael neu wedi cael ei ddarparu. | Gall y rheoliadau ddarparu ar gyfer pennu gwybodaeth gan gynnwys am dderbynnydd cymorth, faint o gymorth a ddarperir, a dibenion unrhyw gymorth a ddarperir.<br><br>Gall y pŵer gynnwys cyhoeddi data sy'n ymwneud â busnesau ac unigolion sy'n derbyn cymorth o dan y pŵer i ddarparu cymorth. Er enghraifft, bwriad polisi'r rheoliadau yw ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth benodol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | am daliadau unigol. Bydd hynny'n sicrhau tryloywder ynghylch at ba ddiben y darparwyd yr arian cyhoeddus. |
| | Adran 11 (1) | Gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer sicrhau bod y meini prawf cymhwysedd am gymorth wedi'u bodloni, a bod mesurau cydymffurfio a gorfodi ar waith. Gall y pŵer hwn roi pwerau mynediad, atal cymorth ac adennill cymorth sydd eisoes wedi ei dalu. | Gall y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer sicrhau bod y meini prawf cymhwysedd am gymorth wedi'u bodloni, a bod mesurau cydymffurfio a gorfodi ar waith, megis trwy system gynhwysfawr a chydlynol o fesurau i wirio, gorfodi a monitro'r cymorth a ddarperir o dan y pŵer i ddarparu cymorth. Bydd y system o wiriadau yn sicrhau bod afreoleidd-dra'n cael ei weld ac yr eir i'r afael ag ef. Mae angen iddo weithredu hefyd fel anogaeth i gydymffurfio<br><br>Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â gorfodi rheolau unrhyw gymorth a ddarperir o dan y darpariaethau a nodir yn y pŵer i ddarparu cymorth. Bydd ganddynt y pŵer hefyd i nodi (mewn rheoliadau) y darpariaethau ynghylch cosbau ac apeliadau (ymhlith materion eraill). Gall hynny gynnwys ymhlith pethau eraill, gosbau ariannol; adennill cymorth ariannol sydd wedi'i dalu; atal unrhyw gymorth (ariannol neu nad yw'n ariannol, neu'r ddau); gwahardd yr hawl i gael cymorth penodol am gyfnod penodol neu nes y bodlonir amodau penodedig.<br><br>Bydd angen cyfiawn dros ddefnyddio'r pŵer hwn a bydd yn gymesur ac yn briodol mewn perthynas â'r hyn y maent yn ei sefydlu (cymhwysedd am daliadau a chydymffurfio ag amodau'r cymorth)<br><br>Ni chaiff rheoliadau o dan y pŵer hwn awdurdodi mynediad i annedd breifat heb warant gan ynad heddwch. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adran 13 (7) | Gall Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio cyfnod adrodd, is-adran (6), yr Adroddiad Effaith. | Pennir cyfnod adrodd ar hyn o bryd o bum mlynedd i gyd-fynd â a) chyfnod adrodd SLM ac â b) hyd contract yr SFS.<br>Os na fydd y cyfnod adrodd hwn bellach yn addas, er enghraifft, os bydd Gweinidogion Cymru am gwtogi hyd y cyfnod adrodd er mwyn gallu cyhoeddi mwy o adroddiadau, gellir ei ddiwygio. Dylid ystyried cyfnod adrodd yr adroddiad SLM wrth newid cyfnod adrodd yr adroddiad Effaith gan y bydd tystiolaeth o'r adroddiad Effaith yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol i'r adroddiad SLM.<br>Os bydd angen, gellir newid y cyfnod adrodd i gyd-fynd â chyfnodau contract unrhyw gynlluniau o dan y pŵer i ddarparu cymorth. Bydd hynny'n sicrhau mai tystiolaeth berthnasol a diweddar a gofnodir.<br><br>Yn achos yr Adroddiad Effaith cyntaf, mae'r "cyfnod adrodd" yn golygu'r cyfnod sy'n dechrau'r diwrnod y daw'r pŵer i ddarparu cymorth i rym ac yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2029. O ran adroddiadau effaith dilynol, mae'r cyfnodau adrodd wedi hynny bob pum mlynedd. |
| **Pen2** | Pwerau i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall | | |
| | Adran 15 (1) | Dyma bŵer i addasu'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r cynllun taliad sylfaenol (BPS) | Ni chaiff ei ddefnyddio ond i newid rheolau manwl y cynllun a geir yng nghyfraith yr UE a ddargedwir.<br><br>Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru newid y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r BPS. Gallai hynny gynnwys newid y BPS dros y cyfnod pontio (yn amodol ar gynnal ymgynghoriad) i ddarparu taliad sefydlogi a chau'r BPS. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adran 16(1) | Dyma bŵer i newid y PAC (ei ariannu, ei reoli a'i fonitro) i ddarparu ar gyfer unrhyw newid sydd ei angen ar gyfer cymorth i'r dyfodol. | Ni chaiff ei ddefnyddio ond i newid rheolau manwl y cynllun a geir yng nghyfraith yr UE a ddargedwir yn ystod y cyfnod pontio.<br><br>Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru barhau â'r cynlluniau cymorth ffermio presennol a sicrhau bod y sector amaethyddol a'r marchnadoedd amaeth yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i ni ymadael â'r UE. |
| | Adran 17(1) | Dyma bŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth. | Mae angen y pŵer hwn i newid y cynllun ar gyfer gwenynwyr ac i addasu i newidiadau er mwyn cynorthwyo gwenynyddiaeth.<br><br>Cynhwysai'r cynllun gymorth technegol i wenynwyr, help i wrthsefyll clefydau a phlâu, ynghylch safleoedd haf a gaeaf, gwaith labordy a marchnata cynhyrchion gwenyna, ailstocio, rhaglenni ymchwil cymhwysol, monitro'r farchnad a gwella ansawdd y cynnyrch. |
| | Adran 18(1) | Bydd yn caniatáu addasu'r ddeddfwriaeth ar ddatblygu gwledig. | Y bwriad yw bod datblygu gwledig yn parhau o leiaf am y tymor byr a bydd ei angen yn ystod y cyfnod pontio.<br><br>Sefydlodd Rheoliad 2021/400 fframwaith datblygu gwledig domestig sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu cynlluniau pontio o 2022. Disgwylir iddo ddod i ben yn raddol wrth bontio i'r SFS (opsiynol/cydweithredol).<br><br>Ni chaiff ei ddefnyddio ond i newid rheolau manwl y cynllun a geir yng nghyfraith yr UE a ddargedwir. |

| Pen3 | Ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol | | |
|---|---|---|---|
| | Adran 22 (1) | Pŵer i wneud rheoliadau i addasu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyriad yn y farchnad gyhoeddus a chymorth ar gyfer storio preifat. | Mae'r pŵer yn cynnwys cael newid y modd y gweithredir cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth ar gyfer Storio Preifat mewn cyfraith yr UE a ddargedwir i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu teilwra i'r farchnad ddomestig. Gallai hynny gynnwys, er enghraifft, newid y cynnyrch sy'n gymwys am gynlluniau neu i ddod â'r cynlluniau y barnwyd nad oeddynt yn ddulliau effeithiol o sefydlogi prisiau'r farchnad i ben. |
| **Pen4** | **Tenantiaethau Amaethyddol** | | |
| | Adran 23 | Mae hon yn diwygio'r diffiniad o gymorth ariannol perthnasol yn Adran 19A (7) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 i gyfeirio at Adran 8 y Bil (pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth). Diwygir y diffiniad hefyd mewn perthynas â chynlluniau trydydd parti, y cynllun taliad sylfaenol, y polisi amaethyddol cyffredin, cymorth ar gyfer gwenynyniaeth a chymorth ar gyfer datblygu gwledig. | Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru arfer pwerau gwneud rheoliadau yn adran 19A o Ddeddf 1986 i alluogi tenantiaid daliadau amaethyddol i droi at gyflafareddu neu farn trydydd parti ynghylch ceisiadau am gydsyniad y landlord i gynnal gweithgaredd a gyfyngir dan delerau'r cytundeb tenantiaeth neu geisiadau am newid telerau, os yw'r cais hwnnw'n ymwneud â chaniatáu i denant gael y cymorth ariannol a ddarperir o dan y pŵer i ddarparu cymorth yn y Bil.<br><br>Bwriad y diwygiad yw sicrhau nad oes cyfyngiadau annheg ar denantiaid amaethyddol rhag cael y cymorth ariannol a ddarperir yn y Bil. |

## *Rhan 3 – Materion yn ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol*

| Cyf | Adran y Bil | Disgrifiad o'r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer |
|---|---|---|---|
| **Pen1** | **Casglu a rhannu data** | | |
| | Adran 24 (2) | Caiff Gweinidogion Cymru trwy reoliadau ei gwneud yn ofynnol i berson yn y gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth neu sydd â chysylltiad agos â hi, i ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig ag unrhyw rai o weithgareddau'r person sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi i'r graddau bod y gweithgareddau hynny'n digwydd yng Nghymru. | Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu trwy reoliadau fynnu bod gwybodaeth yn cael ei darparu am weithgareddau sy'n ymwneud â'r gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth. Mae darpariaethau'r gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth yn ein galluogi i gasglu data am unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â chadwyn gyflenwi, neu ran o gadwyn gyflenwi, sy'n arwain at gynhyrchu bwyd neu ddiod i'w fwyta gan bobl.<br><br>Er enghraifft, byddai cadwyn cyflenwi bwyd-amaeth yn cynnwys y ffermwr sy'n tyfu cnydau am fwyd, y melinydd sy'n malu'r cnwd ar gyfer gwneud bara a'r siop sy'n gwerthu'r bara i'r defnyddiwr. Neu'r ffermwr sy'n magu da byw, y marchnadoedd da byw lle maen nhw'n cael eu gwerthu a'r siop sy'n gwerthu'r bwyd neu'r ddiod.<br><br>Gallai'r gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth gynnwys gwybodaeth hefyd am gynhyrchiant, anifeiliaid a phlanhigion yn y gadwyn gyflenwi. Defnyddir y pwerau hyn i helpu ffermwyr a chynhyrchwyr i gynyddu cynhyrchiant drwy gasglu a rhannu data, gan gynnwys gwybodaeth am brisiau, am gynnyrch penodol ym mhob cam o'r gadwyn fwyd.<br><br>Bydd hyn yn helpu i reoli anwadalwch y farchnad a risg. Bydd hefyd yn help i wella iechyd anifeiliaid a phlanhigion a'u holrhain yn well drwy gasglu a rhannu data am enedigaethau, marwolaethau a symudiadau anifeiliaid, arwyddion o glefydau a'r defnydd o filfeddyginiaethau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae’n bwysig nodi y gall ffermwr fod yn rhan o’r gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth a *hefyd* gynnal gweithgaredd berthnasol. |
| | Adran 26 (2) | Gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i berson sy’n cynnal gweithgaredd berthnasol (nad yw’n berson yn y gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth neu sydd â chysylltiad agos â hi) i ddarparu gwybodaeth am faterion sy’n gysylltiedig â’r gweithgaredd i’r graddau bod y gweithgaredd yn digwydd yng Nghymru. | Mae’r darpariaethau sy’n ymwneud â gweithgareddau perthnasol yn ein galluogi i gasglu data oddi wrth y rhai sy'n cynnal gweithgareddau sy'n amaethyddol eu natur, ond nad ydyn nhw’n rhan o’r gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth. Er enghraifft, cnydau sy'n cael eu tyfu ar gyfer ynni hyd at y pwynt y maent yn cael eu troi'n ynni heibio gât y fferm, neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â garddwriaeth addurnol.<br><br>Bydd y data’n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i fonitro newidiadau yn y farchnad, nodi tueddiadau'r farchnad a chynyddu ein dealltwriaeth o'r sector. Er enghraifft, os oes argyfwng yn y farchnad bydd gan Weinidogion Cymru y data i’w helpu i benderfynu a oes angen ymyrryd ac os oes sut.<br><br>Mae’n bwysig nodi y gall ffermwr fod yn rhan o’r gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth a *hefyd* gynnal gweithgaredd berthnasol. |
| | Adran 31 (1) | Gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth trwy reoliadau ar gyfer gorfodi gofyniad i ddarparu gwybodaeth o dan adrannau 24(1) neu (2) neu adrannau 26(1) neu (2). | Bydd y pwerau casglu data yn y Bil yn galluogi Gweinidogion i ymateb yn gyflym i unrhyw argyfwng yn y sectorau amaethyddol.<br>Mae'n bwysig y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth benodol oherwydd efallai y byddai angen digon o ddata i gyfiawnhau lansio cynllun cymorth. Os bydd rhai ond ddim digon o fusnesau’n darparu data, fel nad oes digon |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | o wybodaeth i gyfiawnhau / lansio cynllun cymorth, mae hyn yn golygu efallai na fydd busnesau sydd wedi ymateb yn gallu cael cymorth.<br><br>Er ei bod yn bwysig bod gennym yr opsiwn i wneud casglu data yn orfodol, mae angen i unrhyw orfodaeth fod yn gymesur.<br><br>Os yw data'n cael eu casglu mewn argyfwng, mae angen i Weinidogion Cymru gofio'r straen ariannol y bydd busnesau yn y fath sefyllfa yn debygol o fod ynddo, felly ni fyddai cosbau sy'n cael mwy o effaith ar fusnesau yn briodol. |
| **Pen2** | **Safonau marchnata: cynhyrchion amaethyddol** | | |
| | Adran 32 (1) | Y pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch safonau marchnata sy'n ymwneud â chynhyrchion amaethyddol a restrir yn Atodlen 1 y Bil. | I sicrhau bod cynhyrchion amaethyddol sy'n cael eu marchnata yng Nghymru yn gallu cael eu moderneiddio, i gyd-fynd â'r sector domestig orau, ac i gyd-fynd â newidiadau mewn mannau eraill yn y DU.<br>Er enghraifft, pe bai Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Ddatganoledig arall yn newid y safonau marchnata yn ei thiriogaeth, byddai'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno safonau tebyg i gyd-fynd â nhw ac osgoi rhoi baich biwrocrataidd trwm ar ffermwyr, proseswyr bwyd a manwerthwyr Cymru sy'n gweithredu mewn marchnata drawsffiniol integredig. |
| | Adran 32 (6) | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid Atodlen 1 sy'n rhestru cynnyrch amaethyddol ac Adran 32 i gyfrif am newidiadau/datblygiadau yn y maes yn y dyfodol. | I sicrhau bod gan Weinidogion Cymru'r gallu i addasu safonau marchnata ar gyfer cynhyrchion amaethyddol i gynnwys cynhyrchion newydd yn y dyfodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gallai hyn gynnwys ychwanegu cynnyrch at restr Atodlen 1 sy'n bwysig i ddefnyddwyr Cymru ac sy'n gofyn am ragor o eglurder wrth eu cyflwyno ar gyfer eu gwerthu, fel labeli sy'n dangos nodweddion sy'n ychwanegu gwerth. |
| **Pen3** | **Dosbarthu etc rhai carcasau** | | |
| | Adran 33 (1) | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau ynghylch dosbarthu, adnabod a chyflwyno carcasau ar gyfer lladd-dai yng Nghymru. Byddai'n eu galluogi i'w haddasu er lles y sector. | Bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid y modd y dosberthir cascasau, ôl y gofyn, gan gynnwys er mwyn adlewyrchu newidiadau technolegol fel Dadansoddi Delweddau Fideo / Graddio â Pheiriant. |

## *Rhan 4 – Coedwigaeth*

| Cyf | Adran y Bil | Disgrifiad o'r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer |
|---|---|---|---|
| | **Pwerau sy'n gysylltiedig â diwygio Rhan 2 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 ("y Ddeddf Coedwigaeth").** | | |
| | Adran 35 | Pŵer i allu atodi amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed, ar ôl ymgynghori â'r sawl sy'n ceisio am drwydded. | Ar hyn o bryd mae'r Ddeddf Coedwigaeth yn caniatáu atodi rhai amodau at drwyddedau cwympo coed sy'n gysylltiedig ag ailstocio a chynnal a chadw'r coed hynny ar ôl eu hailstocio. Ond nid yw'n caniatáu atodi amodau at drwyddedau cwympo i ddiogelu integriti safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod neu elfennau sensitif eraill o'r amgylchedd. Byddai'n rhoi'r pŵer i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fel y rheoleiddydd coedwigoedd atodi amodau "amgylcheddol" at drwyddedau cwympo coed er mwyn atal gwaith cwympo coed a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Prif effaith hynny fyddai diogelu cynefinoedd a rhywogaeth ac amddiffyn yr amgylchedd rhag niwed. Maent yn ychwanegol at yr amodau amgylcheddol sydd eisoes yn y Ddeddf Coedwigaeth. Er y gallai fod rhesymau eraill hefyd dros newid trwyddedau cwympo coed, fel newid yn amcanion y perchennog. Maent fwyaf tebygol o gael eu defnyddio pan fydd CNC yn ystyried bod angen cynnwys amod i ddiogelu rhywogaeth, cynefin neu bryder neu sensitifedd amgylcheddol arall penodol a godwyd yn ystod ymgynghoriad yn y broses ymgeisio.<br><br>Mae'r gofyn i ymgynghori â'r sawl sy'n ceisio am y drwydded cwympo coed yn sicrhau bod y ddau barti ill dau yn deall yr angen cymharus y gellir ei gyfiawnhau am yr amodau hyn. |
| | Adran 36 | Y pŵer i ddiwygio trwyddedau cwympo coed trwy gytundeb. | Ar hyn o bryd, nid oes gan CNC bwerau i ddiwygio trwydded cwympo coed.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn galluogi CNC i ddiwygio trwydded cwympo gyda chytundeb deiliad y drwydded cwympo coed. Bydd y gallu i ddiwygio trwydded cwympo trwy gytundeb â deiliad y drwydded yn helpu i ddatrys nifer o broblemau, gan gynnwys pan fydd amcanion rheoli coedwigoedd yn newid, pan fydd gwybodaeth ychwanegol wedi dod i'r amlwg ers rhoi'r drwydded cwympo coed neu lle gellir cytuno ar gamau i fynd i'r afael ag achos o dorri amodau'r drwydded. |
| | Adran 37 | Y pŵer i ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded cwympo coed ar ôl iddi gael ei rhoi. | Ar hyn o bryd, nid oes pwerau i ddiwygio, atal neu dirymu trwydded cwympo coed am i'w hamodau gael eu torri neu am dorri deddfwriaeth amgylcheddol arall gan arwain at niwed amgylcheddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd y pwerau newydd yn caniatáu i CNC gyflwyno hysbysiad i ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo sydd wedi'u rhoi eisoes.<br><br>Gallai hyn godi lle caiff amodau amgylcheddol o fewn trwydded cwympo coed eu torri, neu lle nad oes amodau amgylcheddol wedi'u torri ond bod niwed amgylcheddol yn debygol o ddigwydd e.e. lle bo sensitifedd newydd wedi dod i'r amlwg yn annisgwyl. Mae'r pwerau'n galluogi CNC i gymryd nifer o gamau drwy gyflwyno hysbysiad, gan gynnwys newid yr amodau amgylcheddol mewn trwydded gwympo, diwygio'r drwydded gwympo ei hun, pennu camau adfer neu liniaru pan na chydymffurfiwyd ag amodau, neu atal (y drwydded gyfan neu ran ohoni) neu ddirymu'r drwydded cwympo. Mae atal neu ddirymu trwydded yn cael eu hystyried yn ganlyniadau eithafol ac ni wneir hynny ond mewn amgylchiadau eithriadol pan na fyddai newid yr amodau neu'r drwydded gwympo yn mynd i'r afael â'r mater neu os na ellir cytuno ar y newid hwnnw.<br><br>Fel rhan o'r pwerau newydd, mae'r diwygiadau arfaethedig hefyd yn cyflwyno trosedd newydd, gan alluogi CNC i gymryd camau gorfodi pan nad yw camau a bennir mewn hysbysiad a roddwyd yn sgil torri amodau wedi cael eu cyflawni. Mae lefel y ddirwy yn ddiderfyn, yn unol â'r ddirwy bresennol o fewn Deddf Coedwigaeth 1967 am beidio â chydymffurfio â hysbysiad. |
| | Adran 38 | Talu iawndal | Ceir darpariaeth eisoes ar gyfer talu iawndal o fewn y Ddeddf Coedwigaeth am wrthod rhoi trwydded cwympo. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Fel rhan o'r pwerau newydd, bydd iawndal ar gael pan gaiff trwydded gwympo ei dirymu neu ei newid oherwydd niwed amgylcheddol sy'n digwydd heb unrhyw fai ar ddeiliad y drwydded. Hefyd bydd iawndal ar gael pan fydd hysbysiad yn cael ei gyflwyno sy’n ymwneud â thorri amodau, ond sy’n cael ei ganslo wedi hynny o ganlyniad i apêl lwyddiannus.<br>Lle bo camau’n cael eu cymryd fel ymateb i hysbysiad a roddir oherwydd torri amodau'r drwydded gwympo a bod yr hysbysiad yn cael ei ganslo wedi hynny mewn apêl, bydd yr iawndal yn seiliedig ar wir gostau cymryd y camau hynny. Ym mhob achos arall, bydd yr iawndal yn seiliedig ar werth y pren sy’n tyfu a gollir yn sgil diwygio, atal neu ddirymu'r drwydded gwympo. Mae hyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth ddigolledu sydd eisoes o fewn Deddf Coedwigaeth 1967 am wrthod trwydded cwympo coed. Hyd yma, does dim iawndal wedi ei dalu o dan y Ddeddf Coedwigaeth. |
| | Adran 39 | Estyn y sail dros apelio | Mae gan ddeiliaid trwydded cwympo yr hawl eisoes i apelio yn Neddf Coedwigaeth 1967 yn erbyn hysbysiad i gydymffurfio ag amodau trwydded gwympo.<br><br>Fel rhan o'r pwerau newydd, mae'r seiliau dros apelio yn cael ei estyn i hysbysiadau a roddir at ddibenion diwygio, atal neu ddirymu trwydded cwympo. Bydd y newidiadau arfaethedig hefyd yn caniatáu i hysbysiadau newid, atal neu ddirymu gael effaith ar unwaith os bydd CNC yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol oherwydd risg sydd ar fin digwydd a risg difrifol o niwed amgylcheddol. |
| | Adran 40 | Cynyddu’r gosb am gwympo coed heb drwydded | Mae'r gosb bresennol am gwympo coeden heb drwydded wedi'i chyfyngu i £2500, sy'n llai na'r gosb "heb derfyn" |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | bresennol am beidio â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi i gynnal amodau ailstocio trwydded gwympo.<br><br>Fel rhan o'r pwerau newydd, bydd y gosb am dorri heb drwydded yn cael ei chynyddu i ddirwy heb derfyn. Bydd hyn yn berthnasol pan gaiff trwydded ei hatal/ei dirymu ond bod y gwaith cwympo’n parhau. Bydd cynyddu'r ddirwy yn unioni’r anghysondeb presennol rhwng y ddirwy heb derfyn am beidio â chydymffurfio â thrwydded a’r ddirwy gyfyngedig bresennol am gwympo coeden yn anghyfreithlon. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r llysoedd osod dirwyon uwch pan geir achos difrifol a bydd yn anogaeth hefyd yn erbyn cwympo coed yn anghyfreithlon. |
| | Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad anstatudol i CNC o ran sut y dylai'r pwerau hyn gael eu gweithredu. Mae’r arweiniad hwnnw i'w weld yma ar wefan Bil Amaethyddiaeth (Cymru).<br><br>Ar sail hyn, bydd CNC yn drafftio canllawiau llawn ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol mewn pryd ar gyfer Cychwyn y pwerau hyn. Yn y cyfamser, gellir gweld amlinelliad ar sut y bydd y pwerau hyn yn cael eu gweithredu gan CNC yma ar wefan Bil Amaethyddiaeth (Cymru). | | |

## *Rhan 5 – Bywyd Gwyllt*

| Cyf | Adran y Bil | Disgrifiad o'r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi'r Pŵer |
|---|---|---|---|
| | **Gwahardd defnyddio maglau a thrapiau glud il add neu gymryd anifeiliaid gwyllt** | | |
| | Adran 43 | Diwygiadau i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | 3.293 Cafwyd llawer yn galw am weithredu ar faglau ers blynyddoedd ac mae'r galw ar gynnydd. Yn 2015, arweiniodd hyn at ddatblygu Cod ar yr Arfer Orau wrth Ddefnyddio Maglau i Reoli Cadnoid a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â chynrychiolwyr nifer o randdeiliaid â diddordeb, gan gynnwys defnyddwyr maglau. Mae pryderon yn parhau i dyfu mewn perthynas â'r anifeiliaid nad ydynt yn darged a'r rhywogaethau targed sy'n cael eu dal. Gwelir y galw am wahardd maglau yn rhannau eraill Prydain Fawr.<br><br>Mae trapiau glud yn cael eu hystyried yn greulon, ac mae cymdeithasau lles anifeiliaid wedi bod yn galw ers tro am eu gwahardd. Cefnogwyd yr alwad gan aelodau Cymdeithas Filfeddygol Prydain a Chymdeithas Sŵolegol Filfeddygol Prydain sydd wedi tynnu sylw at ddulliau tebyg, megis calchu adar, sydd eisoes yn anghyfreithlon. Bydd rhywogaethau targed a rhai nad ydynt yn targed yn cael eu diogelu'n well gan waharddiad llwyr ac yn sicrhau bod dulliau amgen, mwy trugarog, yn cael eu defnyddio. |

## *Rhan 6 – Cyffredinol*

| Cyf | Adran y Bil | Disgrifiad o’r Pŵer | Rheswm dros y Pŵer a Bwriad Polisi’r Pŵer |
|---|---|---|---|
| | Pŵer i ddiwygio adrannau 48 a 49 | | |
| | Adran 50 | Y pŵer i ddiwygio adran 48 (Ystyr “amaethyddiaeth” a chyfeiriadau cysylltiedig) ac adran 49 (Ystyr “gweithgaredd ategol”). | Yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 48 (ystyr "amaethyddiaeth" a chyfeiriadau cysylltiedig) ac adran 49 (ystyr "gweithgaredd ategol") trwy reoliadau.<br><br>Gallai’r rheoliadau hyn ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac yn benodol, ddau ddiffiniad sy’n greiddiol i’r Bil.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn sicrhau y gellir diwygio'r Bil a’r pwerau a’r swyddogaethau ynddo, gan gynnwys y diffiniadau, i addasu ac i adlewyrchu newidiadau mewn arferion amaethyddol o ganlyniad i newidiadau technolegol neu mewn dulliau rheoli tir yn y dyfodol, a sicrhau eu bod yn ateb y diben o hyd. |